

No.

PWYLLGOR DEDDF YSTÂD YR EGLWYS YNG NGHYMRU

Cofnodion cyfarfod o bell a gynhaliwyd ar 6 Tachwedd, 2023.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd M.R. Wilson (Cadeirydd); Cynghorwyr C.E.A. Champion, H.C. Hamilton, M.J. Hooper and M.J.G. Morgan

489 CYHOEDDIAD -

Cyn i fusnes y Pwyllgor ddechrau, darllenodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb oedd yn bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio ar y rhyngwyd a bod y recordiad hwn yn cael ei archifo i'w weld yn y dyfodol. "

490 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr P. Drake (Is-Gadeirydd) a J.E. Charles.

491 COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Medi, 2023 fel cofnod cywir.

492 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

493 CEISIADAU AM GYMORTH ARIANNOL 2023/24 CYFRAN 3 (CAC) –

Cyflwynodd y Rheolwr Gweithredol Cyfrifeg yr adroddiad, a'i ddiben oedd ystyried ceisiadau am gymorth ariannol a ariennir gan Ystâd Deddf Eglwysi Cymru. Gosodwyd cyllideb ddiwygiedig o £47,880 ar gyfer dyfarnu grantiau yn ystod 2023/24 ar ôl ystyried incwm buddsoddi a chostau prisio posibl.

Roedd swm cyllideb heb ei glustnodi o £12,120 a ddygwyd ymlaen o 2022/23 hefyd ar gael i'w glustnodi yn ystod 2023/24. Felly, gosodwyd cyfanswm y gyllideb grantiau ar gyfer 2023/24 ar £60,000.

Roedd y grantiau a ddyrannwyd gan y Pwyllgor ym mis Mehefin 2023, ar gyfer cyfran un, yn gyfanswm o £10,150. Roedd y grantiau a ddyrannwyd gan y

No.

Pwyllgor ym mis Medi 2023, ar gyfer cyfran dau, yn gyfanswm o £13,813. Argymhellwyd dyfarniad pellach o £3,000, yn ymwneud ag un cais grant ar gyfer cyfran tri (Atodiad A), mewn egwyddor nes bod canlyniad cais Grant Cyfleusterau Cymunedau Llywodraeth Cymru yn hysbys ac felly roedd swm sy'n weddill o £33,037 ar gael am gyfran pedwar.

I gloi, dywedodd y Swyddog y cynigiwyd y dylid cynyddu uchafswm y dyfarniad i £10,000 er mwyn helpu i wella nifer y ceisiadau grant a dderbyniwyd a chymhwysedd yr arian i waith cyfalaf ar adeiladau crefyddol yng nghyd-destun costau adeiladu cynyddol, y dylid cynyddu uchafswm y dyfarniad i £10,000 ar sail treial o flwyddyn.

Yn dilyn cynnig y Swyddog, mynegodd y Cynghorydd Hooper ei gefnogaeth i gynyddu'r swm uchaf o ddyfarniadau grant ond holwyd a oedd y cynnig wedi'i wneud yn dilyn adborth gan ymgeiswyr neu farn swyddogion. Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Gweithredol Cyfrifeg nad oedd adborth wedi'i dderbyn gan ymgeiswyr grant, fodd bynnag, roedd swyddogion yn ymwybodol o geisiadau a dderbyniwyd at ei gilydd a allai fod yn arwydd bod ymgeiswyr yn ymwybodol o swm y grant llai presennol. Roedd y Pwyllgor wedi cytuno ar y terfyn dyfarnu grant o £5,000 yn flaenorol, ond roedd yr hinsawdd ariannol wedi newid yn sylweddol ers i'r penderfyniad hwnnw gael ei wneud.

Yna amlygodd y Cadeirydd nad oedd y Pwyllgor yn derbyn llawer o geisiadau i'w hystyried ac felly, i wahodd ceisiadau sy'n ymwneud â chynlluniau cyfalaf a mwy cynaliadwy, gallai fod yn fuddiol cynyddu terfyn y dyfarniad grant. Fel pwynt atodol, cynigiodd y Cadeirydd y dylid cynyddu swm y dyfarniad grant i £10,000 ar sail treial ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol, y gallai'r Pwyllgor ei adolygu wedyn.

Yn dilyn pwyntiau o eglurhad a godwyd gan Aelodau'r Pwyllgor, cytunwyd y byddai'r cyfnod prawf o 18 mis yn para tan ddiwedd y flwyddyn ariannol 24/25 (31 Mawrth 2025).

Awgrymodd y Cadeirydd wedyn y dylid codi trydydd argymhelliad adroddiad i hyrwyddo'r broses ymgeisio am grant drwy sianeli cyfryngau cymdeithasol corfforaethol y Cyngor. Mewn ymateb i bwynt atodol a godwyd gan y Cynghorydd Hooper, bod y cynnydd yn y grant hefyd yn cael ei hyrwyddo drwy Dîm Cronfa Ffyniant Gyffredin y Cyngor, dywedodd y Rheolwr Gweithredol Cyfrifeg y byddai swyddogion cyllid eisoes yn sicrhau bod swyddogion yn adran Lleoedd yn ymwybodol o gyllid Ystâd Deddf Eglwys Cymru sydd ar gael ac felly byddai'r Swyddog yn sicrhau bod Tîm y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn cael gwybod am y cyfnod newid arbrofol a'r swm yn dilyn y cyfarfod.

Heb unrhyw sylwadau, cwestiynau na phwyntiau pellach, gwnaeth y Pwyllgor wedyn

PENDERFYNWYD –

- (1) Cymeradwyo'r cais unigol am gymorth ariannol, fel y nodir yn Atodiad A yr adroddiad.
- (2) Bod uchafswm y dyfarniad yn cael ei gynyddu i £10,000 ar sail prawf tan 1 Ebrill 2025.
- (3) Bod y broses o wneud cais am grant yn cael ei hyrwyddo drwy sianeli cyfryngau cymdeithasol corfforaethol y Cyngor.

Rhesymau dros benderfyniadau

- (1) Ystyried cynnwys yr adroddiad a thrafodaeth ddilynol yn y cyfarfod.
- (2) Ymgymryd â chyfnod prawf o 18 mis gyda'r gobaith o gynyddu nifer y ceisiadau a dderbynnir yn ymwneud â chynlluniau ariannol mwy.
- (3) Cynyddu nifer y ceisiadau am arian Grant Deddf Degwm, codi ymwybyddiaeth o argaeledd y gronfa a gwahodd ceisiadau pellach i'w hystyried gan y Pwyllgor.

494 ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON 2022/23 (CAC) -

Pwrpas yr adroddiad oedd ystyried yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023, fel y nodir yn Atodiad A yr adroddiad, ac yn ofynnol gan Adran 162 Deddf Elusennau 2011. Ymddiheurodd y Swyddog am yr oedi yn yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor.

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor i'w gymeradwyo i anfon ymlaen at archwilwyr allanol y Cyngor, Swyddfa Archwilio Cymru, i'w archwilio'n annibynnol cyn dyddiad cau'r Comisiwn Elusennau, 31 Ionawr 2024.

Dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod gwerth net y gronfa, ar 31 Mawrth 2023, yn £5.176m oedd yn ostyngiad o £79k o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd hyn oherwydd gostyngiad o £98k yng ngwerth buddsoddiadau a throsglwyddiad i gronfeydd wrth gefn o £19k.

Gwerth buddsoddiadau ar ddiwedd y flwyddyn oedd £1.780m sy'n adlewyrchu gostyngiad o £98k. Yn ystod 2021/22 roedd gwerth buddsoddiadau wedi cynyddu i £1.905m ac wedi gostwng yn ôl i £1.878m ar ddiwedd y flwyddyn.

Roedd yr incwm a dderbyniwyd yn gyffredinol yn unol â'r incwm a dderbyniwyd yn 2021/22 ond parhaodd i fod tua £2k yn brin o'r targed incwm o £40k. Roedd y dyraniad grant yn £45k yn ystod y flwyddyn a dyrannwyd £35k yn ystod y flwyddyn gyda £2k yn cael ei ddychwelyd gan sefydliad a £12k yn cael ei gario ymlaen i'w ddyrannu yn 2023/24.

No.

Ychwanegodd y Swyddog fod cynllun yr Ymddiriedolwyr i drosglwyddo'r buddsoddiadau gan Evelyn Partners, a fuddsoddwyd ar sail reoledig ddisgresiynol, i Gronfa Cyd-fuddsoddi Moesegol CCLA yn ystod 2023/24, yn unol â phenderfyniad y Pwyllgor ym mis Ionawr 2023. +Roedd cyfrif buddsoddi CCLA bellach wedi'i sefydlu ac roedd Evelyn Partners yn cysylltu â CCLA i drefnu'r trosglwyddiad yn amodol ar gael llofnodion perthnasol.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cyngorydd Hooper ynghylch pryd y byddai colli'r gronfa, o ganlyniad i'r newid mewn rheolaeth o'r buddsoddiad, yn derfynol yng nghyfrifon yr Ymddiriedolaeth, dywedodd y Rheolwr Gweithredol Cyfrifeg y byddai'r golled yn derfynol yng nghyfrifon 2023/24. Ychwanegodd y Swyddog fod Ymddiriedolwyr wedi penderfynu yn y gorffennol y byddai cronfeydd Evelyn Partners yn cael eu diddymu i gyd mewn un gyfran i leihau costau lluosog dros sawl cyfran ac felly disgwyliad swyddogion oedd bod hyn yn dal yn wir. Cytunodd y Pwyllgor ar hynny, a chadarnhaodd y Swyddog y byddai'n cadarnhau hynny gyda CCLA yn dilyn y cyfarfod.

Yna cyfeiriodd y Cyngorydd Hooper at dudalen 16 o Atodiad A a nodyn 4 yn ymwneud â symiau credydwy'r sy'n daladwy o fewn blwyddyn a nododd fod y grantiau y cytunwyd arnynt yn 2021/22 heb eu talu o 31 Mawrth 2023 yn £10,000 a gofynnodd i'r Swyddog a allai ddarparu rhagor o fanylion am y swm hwn. Mewn ymateb, dywedodd y Swyddog fod y swm o £10,000 yn ymwneud â dau grant, gwerth £5,000, sy'n cael ei ddal drosodd o'r flwyddyn ariannol flaenorol ac y byddai'n anfon e-bost gyda manylion y cronfeydd penodol yn uniongyrchol at aelodau'r Pwyllgor ar ôl y cyfarfod.

Heb unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, gwnaeth y Pwyllgor wedyn

PENDERFYNWYD – Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Drafft 2022/23, fel y nodir yn Atodiad A i'r adroddiad, ac awdurdodi'r Cadeirydd i'w lofnodi ar ran yr ymddiriedolwyr.

Rheswm dros y penderfyniad

O ystyried cynnwys yr adroddiad yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011, a Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 bod yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn cael eu cymeradwyo gan yr Ymddiriedolwyr fel corff yn unol â'u gweithdrefnau gweinyddol arferol.